



Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Llawlyfr Arolygu Cartrefi Gofal Oedolion a Phlant a Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol ac Asiantaethau Maethu Annibynnol

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Ein hegwyddorion	5
Fframweithiau arolygu	8
Mathau o arolygiad	8
Ysbeidiau rhwng arolygiadau.....	9
Mae AGGCC yn gweithredu rhaglen dreigl ar gyfer arolygiadaurheolaidd. Dangosir yr ysbeidiau rhwng arolygiadau yn Nhabl 1.....	9
Cynllunio'r arolygiad	10
Cynnal arolygiadau – casglu a defnyddio tystiolaeth.....	12

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn arolygu gwasanaethau gofal a chymorth a gyflenwir mewn cartrefi plant ac mewn cartrefi gofal ar gyfer oedolion iau a hŷn, gan gynnwys pobl sy'n derbyn gofal nyrsio.

Yn y ddogfen hon, mae'r enw 'rheolwr' yn golygu'r rheolwr sy'n gyfrifol am wasanaeth cofrestrediga gwasanaethau megis gwasanaethau maethu awdurdodau lleol, nad ydynt wedi cofrestru gydag AGGCC ond y mae AGGCC yn eu harolygu.

Ein rôl

Rydym yn arolygu ac yn rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol i:

- ddarparu sicrwydd annibynnol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ynghylch diogelwch, ansawdd ac argaeledd gwasanaethau gofal preswyl a gwasanaethau sydd wedi'u lleoli yn y gymuned yng Nghymru;
- sicrhau y cymerir camau i gael gwelliannau lle mae safonau yn wael neu lle gosodir pobl mewn perygl;
- gwella llesiant a gofal y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth;
- hyrwyddo hawliau'r sawl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth;
- hysbysu'r cyhoedd o ansawdd gwasanaethau gofal; a
- sicrhau bod darparwyr cofrestredig yn diwallu ac yn parhau i ddiwallu gofynion eu cofrestriad.

Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu

Rydym yn cyflawni ein swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru, wrth gadw ein hannibyniaeth o Lywodraeth Cymru.

Rydym yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau gofal ar gyfer **plant a phobl ifanc ac oedolion** o dan y deddfwriaethau canlynol:

- [Deddf Safonau Gofal 2000](#) (Dolen Allanol)
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003
- [Deddf Plant 1989](#) (fel y'i diwygiwyd) (Dolen Allanol)
- [Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002](#) (Dolen Allanol)

Amlinellir ein pwerau mewn cysylltiad ag arolygu yn Adran 31 [Deddf Safonau Gofal 2000](#).

Disgwylir bod yn rhaid i bob gwasanaeth gydymffurfio â'r rheoliadau a bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol perthnasol.

Ein hegwyddorion

Mae ein gwaith yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion:

- **Canolbwyntio ar bobl** – rydym yn rhoi'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddiedig wrth galon ein gwaith ac yn ystyried effaith y gwasanaethau ar wella llesiant pobl.
- **Cefnogi gwelliant** – rydym yn gwneud dyfarniadau am wasanaethau. Rydym yn cydnabod arfer gorau, yn nodi arfer gwael, ac yn hyrwyddo gwella mewn gwasanaethau gofal.
- **Bod yn dryloyw** – rydym yn ymdrechu i ysgrifennu adroddiadau eglur fel y gall pobl ddeall sail y dyfarniadau.
- **Bod yn deg** – rydym yn seilio'n dyfarniadau ar dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o arolygiad ac yn rhoi cyfle i ddarparwyr gwestiynu cywirdeb ffeithiol a chanfyddiadau.
- **Bod yn gadarn** – rydym yn cymryd camau cadarn ac amserol pan fo gwasanaethau'n darparu gofal gwael neu'n rhoi pobl mewn perygl.
- **Bod yn gymesur** – trwy ganolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicach.
- **Bod yn effeithlon** – trwy wneud y defnydd gorau o TGCh a cheisio peidio â gosod beichiau afraid ar y sawl sy'n darparu gwasanaethau gofal a chymorth.

Dull sy'n seiliedig ar hawliau

Mae cynnal hawliau pobl wrth wraidd ein gwaith. Rydym yn ystyried amcanion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a chynllun 'Hawliau Plant' Llywodraeth Cymru, sydd wedi'u cynnwys ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2010 a Datganiad o Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru (2014).

Mae adrannau perthnasol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi'u cynnwys yn ein fframweithiau arolygu. Bydd arolygwyr yn ystyried sut mae darparwyr yn hyrwyddo hawliau pobl, i sicrhau bod gan blant ac oedolion lais, eu bod yn ddiogel, yn cael eu trin â pharch, ac yn cael eu helpu i ddatblygu eu llawn botensial.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Mae'r ddeddf hon yn diogelu hawliau oedolion a allai fod (neu y gellid tybio eu bod) heb y gallu meddyliol i wneud penderfyniadau.

Rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir ar ran person y canfuwyd bod ganddo ddiffyg galluedd gael ei wneud er budd pennaf y person, a dylid dewis yr opsiwn lleiaf cyfyngol i ddiwallu eu hanghenion arbennig.

Yn ystod ein harolygiadau, byddwn yn edrych ar sut y mae darparwyr yn defnyddio'r ddeddf hon i hyrwyddo a diogelu hawliau'r bobl sy'n defnyddio'u gwasanaethau.

Byddwn yn ystyried:

- pryd caiff galluedd ei asesu;
- sut mae galluedd meddyliol yn cael ei fwyafu; a
- phan fo pobl heb alluedd meddyliol i wneud penderfyniad, sut y gwneir ac y cofnodir y penderfyniad hynny i gydymffurfio â'r ddeddf.

Ymddygiad ar gyfer arolygiadau

Rhaid cwblhau arolygiadau bob tro er budd y sawl sy'n defnyddio gwasanaethau er mwyn hyrwyddo eu llesiant a sicrhau eu bod yn ddiogel. Mae'n hanfodol bod y dull arolygu yn seiliedig ar gydgwarteisi a pharch rhwng arolygwyr a'r sawl sy'n rhedeg gwasanaethau.

Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr

Dylai'r holl arolygwyr fodloni'r safonau yng Nghod Ymddygiad y Gwasanaeth Sifil. Wrth gyflawni arolygiad, disgwyliwn i arolygwyr:

- wneud eu gwaith gydag unplygrwydd, cwrteisi a sensitifrwydd;
- gwerthuso gwaith y gwasanaeth mewn modd gwrthrychol;
- adrodd mewn modd gonest, teg a diduedd;
- cyfathrebu mewn ffordd glir ac agored;
- gweithredu er budd pennaf y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau;
- parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth a dderbynnir wrth iddynt wneud eu gwaith; a
- dangos dogfennaeth adnabod sy'n cadarnhau eu hawdurdod i ddod i mewn ac i arolygu.

Disgwyliadau o'r bobl sy'n rhedeg gwasanaethau gofal

Rydym yn disgwyl i'r sawl sy'n gweithredu gwasanaethau:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol;
- defnyddio eu codau ymddygiad eu hunain wrth iddynt ymdrin ag arolygwyr;
- galluogi arolygwyr i gynnal eu harolygiad mewn ffordd agored a gonest;
- galluogi arolygwyr i werthuso'r ddarpariaeth yn wrthrychol yn erbyn y fframwaith arolygu;
- darparu tystiolaeth a fydd yn galluogi arolygwyr i adrodd yn onest, yn deg ac yn ddibynadwy am eu darpariaeth;
- cynnal deialog bwrpasol â'r arolygydd neu'r tîm arolygu;
- cydnabod bod yn rhaid i arolygwyr arsylwi ar arferion a siarad â staff a phobl eraill heb fod y person â gofal yn bresennol;
- tynnu sylw'r arolygwyr neu AGGCC at unrhyw bryderon am yr arolygiad mewn modd amserol ac addas;
- gweithio gydag arolygwyr er mwyn lleihau aflonyddwch a straen yn ystod yr arolygiad; a
- sicrhau iechyd a diogelwch arolygwyr pan fyddant ar y safle.

Gall arolygydd fynd i mewn i ac arolygu adeiladau a ddefnyddir, neu'r rhai y mae AGGCC yn amau y defnyddir, fel asiantaeth neu sefydliad ar unrhyw adeg ac mae rhwystro arolygydd o bwrpas rhag cyflawni ei swyddogaeth reoleiddiol yn drosedd.

Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ac adolygiad blynyddol o ansawdd gofal

Bob blwyddyn, bydd yn ofynnol i ddarparwyr anfon y canlynol atom:

- Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth; ac
- adolygiad o ansawdd gofal y gwasanaeth.

Mae'r dogfennau hyn yn ein galluogi i farnu sut mae darparwyr yn ystyried eu hunain o ran ansawdd yn erbyn pedair thema allweddol (tair mewn perthynas â gwasanaethau/asiantaethau maethu) y fframweithiau arolygu cyn arolygiad. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr fod yn agored ac yn onest wrthym, gan rannu'r holl wybodaeth briodol. Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod y wybodaeth maent yn ei chyflwyno yn gyflawn ac yn gywir.

Gallai methu â chwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth a'r adolygiad o ansawdd gofal ar gyfer gwasanaeth arwain at gymryd camau gorfodi gennym a bydd yn effeithio ar ein dyfarniad o arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth.

Fframweithiau arolygu

Ar wahân i wasanaethau maethu, lle nad oes cyfeiriad at yr amgylchedd, mae gan ein fframweithiau bedair thema:

- Cefnogi llesiant
- Gofal a chymorth
- Yr amgylchedd
- Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r fframweithiau arolygu wedi cael eu datblygu â dosbarthiadau mewn golwg ond ni fwriedir gweithredu'r rhain tan o leiaf 2019–20. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn gwneud dyfarniadau ynghylch eu canfyddiadau a byddant yn tynnu sylw at y rhain yn yr adroddiad o dan bob thema gan ddefnyddio iaith ansoddol.

Mathau o arolygiad

Mae AGGCC yn cynnal dau fath o arolygiad: arolygiad llawn ac arolygiad â phwyslais penodol.

Arolygiad llawn

Cynhelir hwn ar gyfer pob arolygiad rheolaidd ac mae'n cynnwys ystyried yr holl themâu arolygu perthnasol o'n fframweithiau.

- Mae hyn yn gyfle i gadarnhau bod y personau cofrestredig yn parhau i gydymffurfio â rheoliadau a'u hamodau cofrestru a bod y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, eu Datganiad o Ddiben a'u hadolygiad blynyddol o ansawdd yn gywir.

Mae AGGCC hefyd yn cynnal arolygiad llawn o bob gwasanaeth newydd ei gofrestru o fewn chwe mis o ddyddiad cofrestru'r gwasanaeth **neu** o ddyddiad dechrau gweithredu'r gwasanaeth. Bydd yr arolygiad ôl-gofrestru'n darparu cyfle i brofi bwriadau datganedig y darparwr fel y cyflwynwyd yn y cais cofrestru. Gallai hefyd ganolbwyntio ar unrhyw fater a nodwyd yn ystod y broses gofrestru.

Bydd **arolygiadau â phwyslais penodol** fel arfer yn cael eu cwblhau mewn ymateb i bryder neu i ddilyn hynt meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol. Mae'n bosibl y bydd yr arolygiadau hyn yn ystyried rhai agweddau ar y gwasanaeth yn unig. Dylai ein harolygwyr wastad ddefnyddio'r cyfle yn ystod arolygiad â phwyslais penodol i ystyried a sylwi ar lesiant y bobl.

Mae ein holl arolygiadau o leoliadau gofal yn ddirybudd, er y gallem mewn amgylchiadau eithriadol ffonio diwrnod neu ddau ymlaen llaw i leihau unrhyw amhariad neu ofid i bobl ac i wirio pa ddyddiau ac amserau fyddai orau i ni ymweld.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o wasanaethau/asiantaethau maethu. Rhoddir o leiaf 20 diwrnod gwaith o rybudd ar gyfer arolygiadau rheolaidd, a phum niwrnod gwaith o rybudd ar gyfer arolygiadau â phwyslais penodol.

Byddwn yn parhau i arolygu unrhyw wasanaeth ar unrhyw adeg, yn arbennig lle mae gennym bryderon ynghylch gwasanaeth.

Arolygiadau â thema

O bryd i'w gilydd, gallai AGGCC benderfynu ystyried themâu arbennig trwy ein harolygiadau er mwyn darparu trosolwg cenedlaethol o arferion cyfredol. Caiff gwybodaeth am hyn ei darparu i arolygwyr a darparwyr cofrestredig ymlaen llaw.

Ysbeidiau rhwng arolygiadau

Mae AGGCC yn gweithredu rhaglen dreigl ar gyfer arolygiadaurheolaidd. Dangosir yr ysbeidiau rhwng arolygiadau yn Nhabl 1.

Tabl 1: Ysbeidiau rhwng arolygiadau

Math o wasanaeth	Ysbaid mwyaf rhwng arolygiadau
Cartrefi gofal	Un flwyddyn
Cartrefi plant	Un flwyddyn
Gwasanaethau/asiantaethau maethu	Pedair blynedd

Mae yna amgylchiadau pan fydd arolygiadau ychwanegol yn cael eu cynnal. Mae'r amgylchiadau a allai arwain at arolygiad ychwanegol yn cynnwys y canlynol:

- Pan fo gwasanaethau newydd gael eu cofrestru, caiff arolygiadau ôl-gofrestru llawn eu cynnal o fewn chwe mis o'r dyddiad cofrestru.

- Bydd arolygiad ychwanegol yn ofynnol i brofi gwelliannau a wnaed a chydymffurfiad lle bernir bod y gwasanaeth yn 'wasanaeth sy'n peri pryder' neu fod y darparwr yn 'ddarparwr sy'n peri pryder' o fewn proses orfodi AGGCC.
- Bydd arolygiad ychwanegol yn ofynnol i brofi cydymffurfiad lle cyflwynir hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.
- Pan fo gwasanaeth yn peidio bod yn 'wasanaeth sy'n peri pryder', caiff arolygiad llawn ei gynnal o fewn chwe mis wedi iddo gael ei dynnu oddi ar y broses i sicrhau bod unrhyw gamau y cytunwyd arnynt wedi cael eu gweithredu a'u cynnal.
- Pan fo rheolwr neu unigolyn cyfrifol wedi bod yn absennol neu swydd y rheolwr/unigolyn cyfrifol wedi bod yn wag am fwy na thri mis, mae'n bosibl y bydd arolygiad ychwanegol yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n ddiogel.
- Pan fo AGGCC yn derbyn pryderon/gwybodaeth sy'n dangos bod arolygiad yn angenrheidiol er mwyn darparu sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch y gwasanaeth.

Mae'r amserlenni ar gyfer arolygiadau sydd yn Nhabl 1 yn seiliedig ar ysbeidiau mwyaf. Dylai arolygwyr drefnu eu harolygiad o fewn yr ysbaid hwnnw gan gymryd i ystyriaeth argaeledd y bobl sy'n byw yn y cartref neu, yn achos gofal maeth, y rheini sy'n darparu'r gwasanaeth.

Cynllunio'r arolygiad

Diogelu

Mae diogelu llesiant pobl wrth galon ein busnes a bydd arolygwyr wastad yn ystyried pa mor dda mae pobl yn derbyn gofal ac yn cael eu diogelu. Bydd arolygwyr wastad yn ystyried p'un a yw'r trefniadau ar gyfer diogelu pobl yn effeithiol fel rhan o'r themâu arolygu ar gyfer llesiant ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

Bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr wedi creu diwylliant lle caiff llesiant pobl ei hyrwyddo a lle cymerir camau amserol a phriodol pe bai pobl yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol.

Pan fo pryderon diogelu'n codi yn ystod arolygiad, bydd arolygwyr yn cymryd camau i wneud atgyfeiriad i'r awdurdod lleol neu i'w bodloni eu hunain bod atgyfeiriadau priodol wedi cael eu gwneud. Gallai pryderon arbennig gynnwys oedi neu esgeulustod wrth rannu pryderon ynghylch person mewn perygl o ddioddef neu sydd

yn dioddef niwed sylweddol â'r asiantaethau perthnasol. Nid rôl arolygydd yw ymchwilio i bryder amddiffyn plentyn neu oedolyn neu gyhuddiad yn erbyn aelod o staff.

Bydd arolygwyr bob amser yn ystyried:

- polisïau a gweithdrefnau diogelu'r gwasanaeth;
- amgylchiadau lle mae aelod o staff wedi cael ei atal rhag gweithio ac mae ymchwiliad diogelu'n cael ei gynnal ar y pryd;
- methiant i ddilyn gofynion statudol neu weithdrefnau y cytunwyd arnynt yn lleol ar gyfer ymdrin â chyhuddiadau yn erbyn staff; a
- methiant i lynu wrth y ddyletswydd gyfreithiol o atgyfeirio aelod o staff sydd wedi niweidio, neu sy'n cyflwyno perygl o ran niweidio, plentyn, person ifanc neu oedolyn i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Dylid ystyried y canllawiau statudol canlynol:

[Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 – Gweithio gyda'n gilydd i Amddiffyn Pobl](#)

[Canllawiau dyletswydd i atal ar gyfer Cymru a Lloegr](#): dylid rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r angen am atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth fel y gwelir mewn canllawiau ar gyfer awdurdodau penodedig yng Nghymru a Lloegr ynghylch dyletswydd ysgolion a darparwyr eraill parthed Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.

Pryderon

Mae pryderon sy'n cael eu crybwyll gan bobl neu gan y sawl sy'n agos atynt a staff sy'n gweithio mewn gwasanaeth yn ffynonellau pwysig o wybodaeth sy'n ein helpu i ddeall ansawdd y gofal a ddarperir. Rydym yn ystyried pa mor dda mae darparwyr yn ymdrin â phryderon a chwynion. Byddwn yn defnyddio gwahanol ffynonellau tystiolaeth i ddeall pa mor dda mae darparwyr yn annog, yn gwrando ar, yn ymateb i, ac yn dysgu gan bryderon a chwynion. Rydym yn defnyddio gwybodaeth o:

- bryderon a rannwyd ag arolygwyr gan bobl sy'n cael eu cefnogi a/neu sy'n derbyn gofal, aelodau teulu ac ymarferwyr;
- pobl sy'n cysylltu â ni trwy ein gwefan a dros y ffôn; a
- phryderon oddi wrth asiantaethau eraill, e.e. nyrsys ardal, meddygon teulu, eiriolwyr, awdurdodau tân, ac adrannau addysg ac iechyd amgylcheddol.

Yr iaith Gymraeg

Rydym yn ymroddedig i gyflawni arolygiadau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn gwasanaethau Cymraeg eu hiaith. Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau arolygu yn

Gymraeg ar gyfer gwasanaethau Cymraeg eu hiaith a gwasanaethau dwyieithog neu yn iaith ddewis y darparwr cofrestredig.

Rydym wedi ymrwymo i wneud dyfarniadau penodol mewn arolygiadau llawn a adwaenir fel y "cynnig gweithredol" mewn perthynas â darpariaeth yr iaith Gymraeg. Mae'r 'cynnig gweithredol' yn golygu bod y gwasanaeth yn cael ei **ddarparu yn Gymraeg heb fod rhywun yn gorfod gofyn amdano**. Dylai arolygwyr gofnodi'r datganiad cywiraf oddi ar y rhestr isod o fewn y thema Gofal a Chymorth.

- *Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'cynnig gweithredol' o ran y Gymraeg.*
- *Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'cynnig gweithredol' o ran y Gymraeg.*
- *Nid yw'r gwasanaeth yn darparu'r 'cynnig gweithredol' o ran y Gymraeg.*

Cynnal arolygiadau – casglu a defnyddio tystiolaeth

Wrth gynllunio arolygiadau, byddwn yn ystyried yr hyn a wyddys am wasanaeth a byddwn yn cwblhau dadansoddiad o'r wybodaeth er mwyn nodi llwybrau ymholi allweddol ar gyfer y cynllun arolygu. Bydd ffynonellau tystiolaeth yn cynnwys:

- adroddiadau arolygu blaenorol;
- datganiad o ddiben;
- pryderon a leisiwyd wrthym a hysbysiadau am ddigwyddiadau arwyddocaol;
- y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth;
- gwybodaeth ynglŷn â diogelu;
- adolygiad o ansawdd gofal y gwasanaeth ei hun;
- unrhyw weithgarwch gorfodi cyfredol neu ddiweddar; ac
- adborth gan berthnasau (lle bo'n berthnasol), gofalmwyr maeth, ymarferwyr, a gweithwyr proffesiynol eraill a allai fod â diddordeb sylweddol yn y gwasanaeth.

Bydd adroddiadau'n seiliedig ar y dystiolaeth a ganfuwyd yn ystod yr ymweliad ac wrth ystyried yr hyn a wyddys am y gwasanaeth yn barod. Wrth gasglu tystiolaeth, rydym yn rhoi pwyslais ar:

- brofiad pobl o'r gwasanaeth;
- yr hyn maent yn dweud wrthym am eu profiadau;
- arsylwadau ar y modd y caiff gofal ei ddarparu; ac
- y modd y caiff canlyniadau llesiant pobl eu diwallu.

Ar ddechrau arolygiad, bydd arolygwyr yn:

- esbonio diben yr arolygiad;

- trafod cynllun bras ar gyfer yr arolygiad gan ystyried yr effaith ar y gwasanaeth;
- gofyn bod dogfennau perthnasol ar gael yn ystod y broses arolygu;
- gofyn a oes unrhyw bryderon neu beryglon y dylem fod yn ymwybodol ohonynt;
- gofyn am frîff iechyd a diogelwch cyffredinol;
- sicrhau bod gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer ymdrin ag unrhyw bryderon neu gŵynion mae'n bosibl y byddant yn codi yn ystod yr arolygiad;
- sefydlu'r trefniadau ar gyfer rhoi adborth ynghylch canfyddiadau'r arolygiad; a
- chytuno ar drefniadau ar gyfer cwblhau holiaduron ar ôl yr arolygiad.

Isod ceir rhestr o rai o'r dogfennau a gwybodaeth mae arolygwyr yn debygol o fod ag angen eu gweld yn ystod arolygiad:

- Gwybodaeth staff (ymarferwyr), gan gynnwys manylion am gymwysterau, goruchwyliaeth, hyfforddiant a threfniadau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus staff;
- Manylion am weithdrefnau recriwtio staff a chofnodion yr holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y gwasanaeth;
- Polisiâu diogelu;
- Polisiâu rheoli ymddygiad, gan gynnwys bwlio;
- Trefniadau ar gyfer diwallu anghenion pobl â gofynionmeddygol, seicolegol neu addysgol penodol;
- Llyfrau cofnodi damweiniau, digwyddiadau neu gŵynion;
- Asesiadau risg a manteision, asesiadau diogelwch tân, a pholisiâu eraill sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch;
- Rhestr o unrhyw atgyfeiriadau diogelu a wnaed i'r awdurdod lleol, a manylion o'r hyn a wnaed i ddatrys y mater;
- Unrhyw adroddiadau am werthusiadau allanol o'r gwasanaeth;
- Polisi cyfrinachedd;
- Cofnodion presenoldeb a rotâu ar gyfer yr holl staff a gwirfoddolwyr;
- Rhestr o ofalwyr maeth, ynghyd â manylion cyswllt;
- Manylion cyswllt gweithwyr cymdeithasol mewn timau maethu;
- Rhestr o aelodau panel maethu, eu rolau a'u manylion cyswllt;
- Copïau o gofnodion panel maethu.

Cynnal arolygiadau

Bydd yr amser a dreulir wrth arolygu'n amrywio, yn dibynnu ar fath a maint y ddarpariaeth ac ystod oedran a chymhlethdod y bobl sy'n derbyn gofal a chymorth.

Bydd nifer yr arolygwyr hefyd yn dibynnu ar faint a chymhlethdod y gwasanaeth a ddarperir.

Bydd arolygwyr yn:

- archwilio safbwyntiau pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu teuluoedd a staff/ymarferwyr;
- canolbwyntio ar lesiant a phrofiadau trwy ymgymryd ag arsylwadau ar arferion – bydd arolygwyr fel arfer, ym mhob arolygiad llawn (lle ystyrir ei fod yn briodol), yn defnyddio dull y Fframwaith Arsylwi Cryno ar gyfer Arolygu (SOFI) 2;
- craffu ar gofnodion a dogfennau, gan gynnwys cynlluniau gofal a dalennau meddyginiaeth;
- ceisio safbwyntiau'r sawl sydd wrth y llyw a'r sawl sy'n rhedeg y gwasanaeth;
- arolygu addasrwydd a diogelwch yr adeilad, gan gynnwys sgôr ar gyfer safonau hylendid bwyd;
- ceisio gwneud dyfarniadau sy'n deg ac yn seiliedig ar dystiolaeth ddilys; a
- nodi a chynorthwyo gwasanaethau i weithio tuag at welliannau mewn modd adeiladol.

Rhoi adborth

Diben adborth yw rhoi trosolwg o'r canfyddiadau i'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol a gwirio a phrofi'r dystiolaeth mae'n bosibl y bydd yr arolygydd yn dibynnu arni yn ei adroddiad.

Cytunir ar drefniadau ar gyfer rhoi adborth ar ddechrau'r arolygiad. Fel arfer, bydd yr arolygydd yn darparu adborth ar lafar i'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol ar ddiwedd yr ymweliad arolygu. Os na fydd y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad, bydd yr arolygydd yn darparu adborth i'r person â gofal ar y diwrnod ac yn trefnu cwrdd â'r person(au) cofrestredig ar adeg sy'n gyfleus i bawb lle bo'n angenrheidiol. Ar yr adeg hon yn ystod yr arolygiad, ni fydd yr arolygydd yn gallu rhoi ond trosolwg o'i ganfyddiadau, gan na fydd wedi cael amser i gwblhau dadansoddiad cyflawn o'r wybodaeth y mae wedi ei chasglu, ac mae'n bosibl y bydd yn aros am ragor o wybodaeth cyn gwneud unrhyw gasgliadau terfynol.

Bydd yr arolygydd yn gwneud nodyn o'r adborth y mae'n ei roi, ond ni fydd yn gadael adroddiad ysgrifenedig nac yn gofyn i'r person â gofal/darparwr lofnodi adroddiad yr arolygydd o'r adborth. Mae rhoi adborth yn gyfle pwysig i wirio a phrofi'r dystiolaeth mae'n bosibl y bydd yr arolygydd yn dibynnu arni yn ei adroddiad. Dylid dilyn yr

egwyddor "dim syndodau". Mae'n **rhaid** trafod unrhyw bryderon sydd gan yr arolygydd ar ddiwedd yr arolygiad a meysydd o ddiffyg cydymffurfio posibl.

Bydd arolygwyr yn **gofyn amac yn cofnodi** barn y person â gofal/darparwr ar degwch yr arolygiad a'r ffordd y cafodd ei gynnal, a chofnodi'r farn hon ar ddiwedd y sesiwn adborth, yn ogystal â gadael ffurflen adborth ar gyfer ei sylwadau ar yr arolygiad.

Adroddiadau arolygu

Caiff adroddiad arolygu drafft ei gynhyrchu yn dilyn yr arolygiad, fel arfer o fewn 28 diwrnod i'r ymweliad â'r safle. Caiff hwn ei anfon at y darparwr er mwyn iddo fedru rhoi sylwadau ar yr adroddiad, gan gynnwys unrhyw anghysondebau ffeithiol y mae'n teimlo y gallent fod wedi cael effaith ar ein canfyddiadau a'n dyfarniadau.

Mae gan y darparwr 14 diwrnod (deng niwrnod gwaith) i ymateb i'r arolygydd, a fydd yn darparu ymateb o fewn pum niwrnod gwaith. Mae pum niwrnod gwaith pellach ar gael i'r darparwr roi ymateb ychwanegol.

Unwaith y bydd y broses hon wedi gorffen ar gyfer cartrefi gofal i oedolion, bydd AGGCC yn:

- Anfon fersiwn PDF o'r adroddiad (ac unrhyw hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio) at y darparwr cofrestredig (yr unigolyn cyfrifol mewn achos sefydliad corfforaethol) ac at y rheolwr cofrestredig trwy'r cyfeiriad e-bost a gofnodwyd yn y cofnod electronig;
- Sicrhau bod yr adroddiad (ac unrhyw hysbysiad) ar gael yn y swyddfa ranbarthol ac yn anfon copi PDF o'r adroddiad a hysbysiad trwy e-bost at unigolyn / awdurdod lleol / bwrdd iechyd yn dilyn cais penodol;
- Uwchlwytho fersiwn PDF o'r adroddiad (ac unrhyw hysbysiadau) i'n gwefan.
(Sylwer: Ni fydd cartrefi gofal sydd â chwech neu lai o leoedd yn cynnwys cyfeiriad y cartref gofal.)

Yn ogystal, ar gyfer cartrefi plant:

- Anfon fersiwn PDF o'r adroddiad (ac unrhyw hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio) at y darparwr cofrestredig (yr unigolyn cyfrifol mewn achos sefydliad corfforaethol) ac at y rheolwr cofrestredig trwy'r cyfeiriad e-bost a gofnodwyd yn y cofnod electronig;
- Sicrhau bod yr adroddiad (ac unrhyw hysbysiad) ar gael yn y swyddfa ranbarthol ac yn anfon copi PDF o'r adroddiad (a hysbysiad) trwy e-bost at

unigolyn / awdurdod lleol / bwrdd iechyd / awdurdod addysg yn sgil cais penodol;

- Rhoi **neges** ar ein gwefan sy'n nodi bod yr adroddiad (ac unrhyw hysbysiad) ar gael o'r swyddfa ranbarthol;

Gwasanaethau maethu:

- Anfon fersiwn PDF o'r adroddiad (ac unrhyw hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio/llythyr gwella) at y darparwr cofrestredig (yr unigolyn cyfrifol mewn achos sefydliad corfforaethol neu gyfwerth mewn awdurdodau lleol) ac at y rheolwr trwy'r cyfeiriad e-bost a gofnodwyd yn y cofnod electronig;
- Sicrhau bod yr adroddiad (ac unrhyw hysbysiad/llythyr gwella) ar gael yn y swyddfa ranbarthol ac anfon copi PDF o'r adroddiad (a hysbysiad/llythyr gwella) trwy e-bost at unigolyn / awdurdod lleol / bwrdd iechyd / awdurdod addysg yn sgil cais penodol;
- Postiwch fersiwn PDF o'r adroddiad at ein safle mewnswydd

Mae'n bosibl y bydd yr adroddiad arolygu'n nodi argymhellion ar gyfer gwelliannau a fydd yn destun gwaith dilynol yn ystod yr arolygiad nesaf. Dylai'r rhain roi arwydd clir a phenodol i'r gwasanaeth o ran y meysydd i'w gwella y bydd angen mynd i'r afael â nhw.

Mae rhagor o wybodaeth am ein [polisi adrodd agored](#) ar ein gwefan.

Diffyg cydymffurfio

Mae ein harolygiadau'n canolbwyntio ar brofiad a chanlyniadau ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, yn ogystal ag ystyried rheoliadau priodol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Pan fydd y canlyniadau ar gyfer pobl yn wael, byddwn yn cymryd camau a allai gynnwys cyflwyno hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio, gosod amodau brys ar gofrestrriad gwasanaeth, neu erlyniad troseddol. Mae ein hymateb i ddiffyg cydymffurfio yn cael ei lywio gan yr egwyddorion allweddol canlynol.

Bydd yr hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei ddisodli gan lythyr gwella i awdurdodau lleol, y mae eu gwasanaethau yn cael eu harolygu ond nad ydynt wedi'u cofrestru.

- **Cyfrifoldeb y darparwr:** Mae darparwyr gwasanaethau'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Oni bai bod angen camau gweithredu ar unwaith, rhoddir cyfle i ddarparwyr unioni methiannau.
- **Cymesuredd:** Pan fyddwn yn cymryd camau, bydd hyn yn gymesur â'r canlyniadau i bobl sy'n derbyn gwasanaethau, y risg i'w hiechyd a llesiant, a pharodrwydd y darparwr i gydymffurfio. Ein blaenoriaeth yw canolbwyntio ar y

meysydd hynny lle mae gan ddiffyg cydymffurfio effaith uniongyrchol ar lesiant pobl.

- **Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd:** Bydd y camau a gymerir gennym yn glir, yn gyson, yn amserol, yn deg ac yn dryloyw.
- **Camau graddol:** Bydd y darparwyr hynny sy'n methu'n gyson â chydymffurfio â rheoliadau'n wynebu camau gorfodi dwysedig, a allai arwain yn y pen draw at ddileu eu cofrestriad.
- **Gweithio gydag eraill:** Rydym yn gweithio gydag asiantaethau, rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill i sicrhau bod unrhyw gamau'n cael eu cydlynu, a bod gwybodaeth a phryderon yn cael eu rhannu. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fydd pryderon ynglŷn â materion iechyd a diogelwch sy'n cael eu harolygu gan reoleiddwyr eraill.

Dylai achosion o ddiffyg cydymffurfio ffurfio rhan o'r adborth ar ôl yr arolygiad a chael eu nodi yn yr adroddiad arolygu. Pan fydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio ar wahân wedi cael ei gyflwyno, bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan, a bydd ein proses diffyg cydymffurfio'n cael ei dilyn.